

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU (Archwiliadau Safle)

9 Mai 2016

Yn bresennol: Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Cynghorydd S Hudson (Aberllydan yn unig), Cynghorydd M James, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

(Archwiliad Safle: Aberllydan: 10.00 a.m. – 10.30 a.m.
Saundersfoot: 11.30 a.m. – 11.50 a.m.)

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb wrth Mr A Archer, Mr D Ellis, Ms C Gwyther, Cynghorydd R Kilmister, Mr AE Sangster, Cynghorydd D Rees, Mrs M Thomas a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. PC/16/0047/LLA – 2 x 4-person tai 2-ystafell wely – Tir yn Peasey Park, Heol Sandyke, Aberllydan

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd gan eu hatgoffa mai diben yr ymweliadau'r diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ddod yn gyfarwydd â safleoedd y ceisiadau a'r ardal oddi amgylch a dim mwy na hynny. Ni fyddai penderfyniad yn cael ei wneud nes y byddai'r ceisiadau cynllunio yn cael eu hystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Adroddwyd bod y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2016 wedi penderfynu y dylai'r cais hwn, a oedd yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn am ddatblygiad preswyl bychan fforddiadwy a rhannol ar wahan, yn cynnwys dwy annedd ddeulawr a dwy ystafell wely, gael ei ohirio i ganiatáu'r Pwyllgor i ymweld â'r safle. Yn dilyn ceisiadau'r Aelodau byddai manylion pellach ynghylch perchnogaeth tir a statws y safle fel llecyn agored yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor pan fyddai'r cais yn cael ei ystyried y tro nesaf.

Ar y safle, sefydlwyd beth fyddai bras leoliad ac uchder yr anheddau arfaethedig mewn perthynas ag adeiladau eraill yn y cyffiniau, a bu'r Aelodau'n edrych ar y safle o'r tu blaen, o'r llwybr cyhoeddus gerllaw ac o erddi eiddo yn y cefn a oedd ar lefel is.

Wrth ddiolch i'r Aelodau am eu presenoldeb gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod er mwyn teithio i'r safle nesaf.



3. PC/16/0083/LLA – Newidiadau ac estyniadau yn cynnwys estyniadau grisiog i'r trychiad cefn, estyniad dros elfen llawr sengl cyfredol i'r talcen gorllewinol a ffenestri dormer newydd ar drychiad y to blaen – Paulfryn, Feidr Sain Ffraid, Saundersfoot

Adroddwyd bod caniatâd cynllunio yn cael ei chwennych ar gyfer estyniad a newid i dŷ annedd ar wahân wedi'i leoli oddi fewn llain gardd hir mewn lleoliad o ddatblygiad dwys. Cafodd y cais ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol pan leisiodd rhai Aelodau bryder ynghylch crynswth a dyluniad yr estyniad arfaethedig yn ogystal â'r colli mwynder a'r tremio byddai'n digwydd i eiddo cyfagos o ganlyniad; penderfynwyd y dylid trefnu archwiliad safle.

Ar y safle bu'r Aelodau'n bwrw golwg ar ardal yr ardd o fewn yr eiddo lle byddai'r estyniad wedi'i leoli a hynny o fan oddi fewn i'r eiddo ac o fangre'n edrych nôl o waelod yr ardd. Roedd yr asiant wedi marcio ôl troed yr estyniad gan gyfeirio hefyd at y ffaith y byddai'r hyn a welir ar hyn o bryd o'r tu fewn i'r eiddo o lecyn patio'r cymdogion wedi'i guddio gan yr estyniad arfaethedig ac o'r herwydd yn gwella preifatrwydd y cymdogion. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r holl wydro ar drychiadau ochr yr eiddo, ac ochrau'r balconïau arfaethedig, yn wydr tywyll na ellid gweld trwyddo. Nodwyd nad oedd yr un eiddo'n agos at gefn yr annedd a fyddai'n cael ei effeithio gan dremio.

Wrth ddiolch i'r Aelodau am eu presenoldeb terfynodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy ddweud mai'r disgwyl oedd y byddai'r ddau gais yn cael eu hail-gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w penderfynu.